



Amcan Llesiant 14

Amgylchedd Iach a Diogel - Hyrwyddo'r iaith Gymraeg a Diwylliant

Sut y byddwn yn gwneud hyn?

Ein cynllun gweithredu manwl i gyflawni'r amcan hwn

(Mae'r uwcholeuo lliw lemn yn golygu nad hwn yw prif amcan y Cam neu'r Mesur).

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/ Targed
A	Gweithredu a monitro Safonau'r Gymraeg	
1	Byddwn yn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg.	Mawrth 2020
2	Byddwn yn datblygu Rhaglen Iaith Gymraeg integredig ar gyfer ein staff.	Mawrth 2020
3	I hwyluso gwneud penderfyniadau da, byddwn yn cyflwyno Asesiad Effaith integredig a fydd yn cyfnerthu'r gofynion o ran Cydraddoldeb, yr Iaith Gymraeg a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.	Mawrth 2020
B	Datblygu'r Gymraeg yn ein gwasanaethau Addysg i gyd	
1	Byddwn yn gweithredu cynnwys y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg mewn partneriaeth ag arweinwyr ysgol er budd pob dysgwr yn Sir Gaerfyrddin. <i>(Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 3)</i>	Mawrth 2020
2	Byddwn yn gweithio gydag ysgolion cynradd ac uwchradd y Sir i'w symud ar hyd y continwwm iaith Gymraeg a hefyd i sicrhau bod disgyblion unigol mewn ysgolion perthnasol yn cael cyfleoedd i barhau â'u haddysg cyfrwng Cymraeg ym mhob cyfnod allweddol. MF5-31 <i>(Cam gweithredu hefyd yn Amcan 3)</i>	Mawrth 2020
3	Byddwn yn cynyddu % y disgyblion a asesir yn Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (PAM/033) <i>(Mesur hefyd yn Amcan Llesiant 3)</i> <i>(Canlyniad 2018/19 - 53.5% - Blwyddyn Academaidd 17/18)</i>	35.0%
4	Byddwn yn cynyddu % y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio Cymraeg (iaith gyntaf) (PAM/034) <i>(Mesur hefyd yn Amcan Llesiant 3)</i> <i>(Canlyniad 2018/19 - 44.9% - Blwyddyn Academaidd 17/18)</i>	45.5%
C	Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg	
1	I hyrwyddo Strategaeth y Gymraeg - Byddwn yn cynyddu'r niferoedd sy'n ennill sgiliau sylfaenol a sgiliau pellach yn y Gymraeg drwy'r system addysg a thrwy drosglwyddo'r iaith yn y cartref.	Mawrth 2021
2	I hyrwyddo Strategaeth y Gymraeg - Byddwn yn cynyddu hyder siaradwyr Cymraeg ac felly y defnydd o'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd, ac yn annog a chefnogi sefydliadau'r sir i wneud y Gymraeg yn gyfrwng mwyfwy naturiol ar gyfer eu gwasanaethau. MF5-86.	Mawrth 2021
3	I hyrwyddo Strategaeth y Gymraeg - Byddwn yn cymryd camau pwrpasol i effeithio'n gadarnhaol ar symudiadau poblogaeth gan geisio denu pobl ifanc i setlo neu ailsetlo yn y sir, fel bo'r cynnydd sy'n cael ei wneud o ran siaradwyr Cymraeg drwy'r system addysg ddim yn cael ei golli. Hefyd, gwneud ymdrech sylweddol i gymathu newydd-ddyfodiaid a sicrhau nad yw datblygiadau cynllunio newydd yn cael effaith andwyol ar hyfywedd y Gymraeg. MF5-86.	Mawrth 2021

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/ Targed
4	I hyrwyddo'r Strategaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg - Byddwn yn targedu ardaloedd daearyddol penodol o fewn y sir, naill ai am eu bod yn cynnig potensial i ddatblygu neu yn achosi pryder yn ieithyddol, i gynyddu niferoedd sy'n medru ac yn defnyddio'r Gymraeg yn yr ardaloedd hynny. MF5-86	Mawrth 2021
5	I hyrwyddo Strategaeth y Gymraeg - Byddwn yn marchnata ac yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Codi statws y Gymraeg ac ymwybyddiaeth o fanteision dwyieithrwydd ac addysg ddwyieithog. A thrwy gynyddu ymwybyddiaeth o'r manteision hyn, cael mwy o drigolion y sir i ddysgu'r iaith. MF5-86	Mawrth 2021
6	Byddwn yn atgyfnerthu ymhellach y ddarpariaeth a'r defnydd o'r Gymraeg yn y gwasanaethau gofal cymdeithasol er mwyn gallu darparu gwasanaethau yn newis iaith defnyddwyr y gwasanaeth a sicrhau cydymffurfiaeth â'r 'Cynnig Actif'. MF5-56 (Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 10)	Mawrth 2020
D	Hyrwyddo ein treftadaeth a'n diwylliant Cymreig	
1	Byddwn yn datblygu'r prosiect digidol 'Stordy Digidol' i ddangos casgliadau treftadaeth Sir Gaerfyrddin er mwyn gwella hygyrchedd. (Cam gweithredu hefyd yn Amcanion Llesiant 8)	Mawrth 2021
2	Byddwn yn gweithredu ein cynllun Datblygu Llyfrgelloedd 2017 – 2022. (Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 11)	Mawrth 2022
3	Byddwn yn cyflawni cynllun trawsnewid ar gyfer gwasanaeth Amgueddfeydd Sir Gâr, i gynnwys datblygiad Parc Howard, adolygiad o Amgueddfa Cydweli ac Amgueddfa Cyflymder newydd ym Mhentywyn i wella'r ddarpariaeth i drigolion ac ymwelwyr MF5-64 (Cam gweithredu hefyd yn Amcanion Llesiant 6 ac 8)	Mawrth 2022
4	Byddwn yn adolygu trefniadau llywodraethu ac yn cyflwyno opsiynau ar gyfer ail-ddatblygu Oriol Myrddin er mwyn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer trigolion ac ymwelwyr. MF5-64 (Cam gweithredu hefyd yn Amcanion Llesiant 6 a 8)	Mawrth 2020
5	Byddwn yn cychwyn ar gynllun trawsnewid yr amgueddfeydd drwy waith ailddatblygu gwerth £1.2 miliwn yn Amgueddfa'r Sir yn Abergwili. MF5-65 (Cam gweithredu hefyd yn Amcanion Llesiant 6 a 8)	Mawrth 2023
6	Byddwn yn adolygu ac yn ailddatblygu darpariaeth y Cyngor o ran gwasanaethau theatr. MF5-66 (Cam gweithredu hefyd yn Amcanion Llesiant 6 a 8)	Mawrth 2020
7	Byddwn yn darparu ystorfa archif a hwb gwybodaeth newydd ar gyfer Sir Gaerfyrddin. MF5-63	Mawrth 2021
8	Byddwn yn dathlu a hyrwyddo llwyddiannau ac amrywiaeth gyfoethog Sir Gaerfyrddin ym maes diwylliant a chwaraeon. MF5-70 (Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 8)	Mawrth 2020
9	Byddwn yn cefnogi grwpiau a sefydliadau cymunedol i hyrwyddo a chyhoeddi'r amrywiaeth eang o ddigwyddiadau cymunedol a gynhelir yn Sir Gaerfyrddin, boed yn sioeau amaethyddol, yn wyliau, yn garnifalau, yn arddangosfeydd, yn gyngherddau neu'n berfformiadau. MF5-85 (Cam gweithredu hefyd yn Amcanion Llesiant 6 a 9)	Mawrth 2020

Mesurau Llwyddiant
Yn gallu siarad Cymraeg (Arolwg Cenedlaethol Cymru) (ACC) (Dangosydd Llesiant Cenedlaethol) (DLIC)
Y disgyblion sy'n derbyn asesiad athro yn Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (PAM/033)
Pobl a fu mewn digwyddiadau ym maes y celfyddydau yng Nghymru y llynedd (ACC)
Pobl a wnaeth ymweld â lleoedd hanesyddol yng Nghymru y llynedd (ACC)
Pobl a wnaeth ymweld ag amgueddfeydd yng Nghymru y llynedd (ACC)